

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Sym : 07903328655
e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, MAWRTH 4ydd, 2019, YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS.

1. **CROESO** - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL** - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams, yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Eifion Evans; D.Gwyn Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.

3. **YMDDIHEURIADAU** - y Cynghorwyr Bryn Jones; Fiona Haf Jones a Tudur W.Jones.

4. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** -

Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. NI DDATGELWYD YR UN.

5. **MUNUDAU - PENDERFYNWYD** cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Chwefror 4ydd, 2019, yn Neuadd y Pentref, Betws yn Rhos.

6. **MATERION YN CODI**
 - 1.18/14(v) Tyllau yn y ffordd rhwng croesffyrdd Garnedd a Nentydd. Mae GF32176 yn cyfeirio. Dywedodd y Cynghorydd Ifor Lloyd fod y Cyngor Sir yn dal i fyny efo peth o'r trwsio ffyrdd, ond oherwydd yr anawssterau cyllid yn y sir roedd yn anodd dweud faint yn fwy a fyddai'n cael ei wneud.
 - 2.18/14(i) Y bwth teleffon yn Nolwen. PENDERFYNWYD peintio a thrwsio'r bwth, ond roedd pa bynnag ddefnydd a wneid ohono'n dal dan ystyriaeth.
 - 5.18/6(i) Draen ffordd yn Ffordd Cilgwyn. GF 33158. Roedd aelodau'n siomedig nad oedd y draeniau ar y ddwy ochr i'r ffordd wedi eu trwsio. PENDERFYNWYD ysgrifennu at y Cyngor eto i ofyn am iddyn nhw gael sylw.
 - 11.18/14(ii) Cyflwr y llwybr troed o Lanelian i Fryn Elian, a adwaenir fel Ffordd Figin. Hyd yma nid oedd dim wedi ei wneud i'r llwybr hwn. PENDERFYNWYD ysgrifennu at y Cyngor Sir eto.

1.19/14(i) Pont Dolwen ger y Lodge. Dangoswyd i'r aelodau lythyr yr oedd y Clerc wedi ei ysgrifennu at y Cyngor Sir ar eu rhan yn dweud nad oedd y bont yn cyflawni ei phwrpas, oherwydd ei hoed a'r llwyth o draffig trwm a oedd yn ei defnyddio.

2.19/18(i) Arwydd ffordd wedi ei ddifrodi yng nghroesffordd Gamedd. Doedd hwn fyth wedi cael ei drwsio.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

3.19/7(i) Adroddiad Blynyddol Panel Ad-daliadau Annibynnol Cymru. NODWYD yr adroddiad hwn.

8. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo'r adroddiadau Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Chwefror 20fed, 2019.

Cyfrif cymunedol£7361.14

Cyfrif busnes£5534.22

1.19/8(i) Mantolen fisol. 21. 1.19 hyd at 20.2.19 - CYTUNWYD arni gan bawb.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD talu'r holl anfonebau a'r taliadau a ddangosir isod:-

- | | | |
|-------|---|--------------------------------|
| i. | 3.19/10(i) Cyflog y Clerc (DU) |£ 287.23 |
| ii. | 3.19/10(ii) HMRC...(DU) |£ 71.81 |
| iii. | 3.19/10(iii) Cyfieithu. (Hamner y gost)
200029 |£ 17.00 - Siec |
| iv. | 3.19/10(iv) Aelodaeth Un Llais Cymru
200030 |£ 145.00 - Siec |
| v. | 3.19/10(v) Treuliau blynyddol y Clerc, goleuo, offer, a.y.y.b.. | £ 200.00 - Siec
200031 |
| vi. | 3.19/10(vi) Stampiau |£ 32.16. - Siec
200032 |
| vii. | 3.19/10(vii) Inc argraffydd, papur
200033 |£ 47.94 - Siec |
| viii. | 3.19/10(viii) Garej Bryn Rhos
200034 |£ 420.00 - Siec |

11. CEISIADAU AM GRANT -

3.19/11(i) Ambiwylans Awyr Cymru. PENDERFYNWYD edrych ar y cais hwn ym mis Mai.

3.19/11(ii) Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. PENDERFYNWYD peidio â chyfrannu eleni.

12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

4.16/12(i) Adroddiadau ynglŷn â materion Archwiliad Ward. Mae sefyllfa wedi codi yn Llanelian lle mae preswylwyr wedi bod yn dadlau ynghylch lleoedd parcio. Mae'r Cyngor Sir yn dymuno gwerthu'r darn o dir i'r Cyngor Cymuned. PENDERFYNWYD peidio â phrynu'r tir. Gofynnodd y Cyngorydd Lloyd am gael trefnu ymweliad â'r safle i weld a ellid datrys y sefyllfa, a bod y Cyngor Sir yn adeiladu cilfachau parcio. Fe ddywedodd wrth yr aelodau fod y Cyngorwyr Sirol gwledig yn pryderu fwyfwy am yr arian a fyddai ar gael i'r ysgolion, oherwydd cyfyngiadau cyllidol a'r arian addysg wrth gefn a oedd wedi eu defnyddio i gynnal treth y Cyngor.

3.19/12(i) Datganiad Egwyddorion Hapchwarae diwygiedig. - NODWYD hyn.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - DIM.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

3.19/14(i) Cyflwr y ffordd rhwng Betws a Nant yr Efail.

3.19/14(ii) Roedd aelodau'n bryderus ynghylch y nifer o ddamweiniau a fu ar y ffordd ym Mryn Person.

3.19/14(iii) Roedd y coed yn gor-dyfu dros y ffordd ar Ffordd Galch.

3.19/14(iv) Pryder ynglŷn â'r coed yn tyfu i'r afon ger yr hen doiledau.

15. UNRHYW FATER ARALL

3.19/15(i) Polisi grantiau. CYTUNWYD ar hwn ac fe'i LLOFNODWYD.

3.19/15(ii) CYTUNWYD ar y polisi gwarchod data.

3.19/15(iii) Dywedodd y Cyngorydd Gwyndaf O.Roberts ei fod yn cyflwyno £36 tuag at gronfa'r diffibriliwr.

16. CYNLLUNIO -

3.19/16(i) 0/45952 Codi sied porthiant a pheiriannau amaethyddol ym Mhen-y-Bryn, Betws yn Rhos, Conwy. Mr Jones. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

3.19/16(ii) 0/45961 Symud coeden goniffer Rhif 1 yn y Coach House, Ffordd Cil Llidiart, Betws yn Rhos. Mr Martin Farr. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

3.19/16(iii) 0/45966 Estyniad to deulawr goleddf i du blaen annedd bresennol, codi ardal patio yn 4, Glan y Fedw, Betws yn Rhos. Mr Alan Goodall. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

17. MATERION ARCHWILIAD -

3.19/17(i) Copi o Lwyodraeth ac Atebolrwydd i Gyngorau lleol yng Nghymru. (Cyfeirlyfr ymarferwyr) NODWYD hyn.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 9.10y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....